**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**15 Rhagfyr 2025**

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (‘y Cod’) yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (‘y Gorchymyn Cynnal Etholiadau’) neu'r hyn nad yw'n dod o fewn y Rhannau hynny. Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o ‘dreuliau etholiad’ ac yn berthnasol yn benodol, felly, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd adrodd arnynt.

2. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion etholiad yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â hwy fel ‘treuliau etholiad’. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

3. Mae'r Cod yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r achosion neu'r amgylchiadau lle mae treuliau i'w hystyried, neu ddim i'w hystyried ‘at ddibenion ethol ymgeisydd’. Mae'r Cod yn ategu'r diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 65 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

4. Nid yw'r Cod yn rhoi canllawiau i'r ymgeiswyr hynny sy'n sefyll i'w hethol i'r Senedd ar ran plaid wleidyddol (h.y. ymgeisydd rhestr plaid).

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

5. Mae'r fersiwn hon o'r Cod yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i ymdrin â materion a nodwyd yn y fersiwn o’r Cod a osodwyd ar 13 Hydref 2025[1] ac a dynnwyd yn ôl wedyn.

**Y cefndir deddfwriaethol**

6. Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan baragraff 20 o Atodlen 7 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau i lunio cod ymarfer sy'n rhoi canllawiau ynghylch Treuliau Etholiad Ymgeisydd Unigol.

7. Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i ddechrau i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod drafft gydag addasiadau, ac, ar yr un pryd â'r Cod, gwnaethant osod gerbron y Senedd ddatganiad o'r rhesymau dros wneud yr addasiadau hyn. Tynnwyd y fersiwn hon yn ôl yn ddiweddarach, ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei hystyried.

8. Gosodir y Cod drafft diwygiedig hwn gerbron y Senedd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai o dan baragraff 20 o Atodlen 7 i'r

[1] SL(6)655 - Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadaur Senedd) 2025 - TYNNWYD YN ÔL

Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Mae'r Cod yn ymgorffori diwygiadau ac mae wedi bod yn destun gwiriadau cyfwerthedd ychwanegol. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod diwygiedig heb ei addasu, felly nid oes angen Datganiad o Resymau.

9. Bydd y Cod drafft yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod i'w osod, bydd y Cod yn cael ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru, yn cael ei ddwyn i rym gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn, ac yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

10. Mae'r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiad ymgeiswyr wedi'i gyfyngu gan y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Mae terfyn gwariant yn gymwys mewn perthynas â chyfnod penodol, y cyfeirir ato'n aml fel 'cyfnod rheoleiddiedig'.

11. Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 yn dechrau ar 7 Ionawr 2026, ac yn dod i ben ar ddiwrnod y pôl, sef 7 Mai 2026.

12. Mae'r Cod yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau neu'r hyn nad yw'n dod o fewn y Rhannau hynny.

13. Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'dreuliau etholiad' ac yn berthnasol yn benodol, felly, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd eu cofnodi'n draul etholiad.

14. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion etholiad yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â hwy fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

15. Mae'r Cod yn rhoi arweiniad hefyd ynglŷn â'r achosion neu'r amgylchiadau lle mae treuliau i'w hystyried, neu ddim i'w hystyried 'at ddibenion ethol ymgeisydd'. Mae'r Cod yn ategu'r diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 65 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

16. Rhaid i ymgeiswyr naill ai benodi asiant i oruchwylio eu gwariant neu weithredu fel eu hasiant eu hunain. Mae gan yr asiant gyfrifoldebau dros ysgwyddo a thalu am dreuliau etholiad ymgeiswyr – gweler erthyglau 47 a 44 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y drefn honno.

17. Mae erthygl 54 yn ei gwneud yn ofynnol i asiant ymgeisydd gyflwyno ffurflen o dreuliau etholiad. Mae erthygl 55 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiant a'r ymgeisydd wneud datganiad ynghylch cywirdeb y ffurflen.

18. Mae erthygl 56 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ar restr ranbarthol plaid gofrestredig wneud datganiad ynghylch treuliau etholiad.

19. Pan na fo ymgeisydd neu asiant yn dilyn y Cod, mae'n debygol eu bod yn torri'r gofynion statudol sy'n ymwneud â threuliau etholiad. Gallai hyn arwain at erlyniad am arfer lwgr a/neu arfer anghyfreithiol o dan erthyglau 121 a/neu 122 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau h.y. dirwy ac, mewn perthynas ag arfer lwgr, garchar o bosibl.

20. Pan geir ymgeisydd neu asiant yn euog yn bersonol o arfer lwgr, mae'n cael ei wahardd rhag dal swydd etholedig am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer arfer anghyfreithiol, mae'n cael ei wahardd am dair blynedd. Gallai etholiad yr ymgeisydd fod yn ddi-rym.

21. Mae'r Cod yn gymwys i etholiadau i'r Senedd.

**Ymgynghori**

22. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â phersonau a chyrff sydd â buddiant, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer ymgeiswyr unigol yn etholiadau'r Senedd | Y Comisiwn Etholiadol

23. Mae newidiadau i'r Cod ar ôl yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriad at y cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Nid oedd geiriad yr is-ddeddfwriaeth berthnasol ar gael ar yr adeg y drafftiwyd y Cod gyntaf ac felly bu rhaid ychwanegu hyn yn nes ymlaen.

24. Gosododd Llywodraeth Cymru y Cod gerbron y Senedd, ar ran y Comisiwn Etholiadol. Ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ystyried y Cod, fe'i tynnwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Yna, gwnaeth y Comisiwn Etholiadol nifer o fân newidiadau technegol a chyflwyniadol i ymdrin â phwyntiau adrodd y Pwyllgor. Cefnogodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn Etholiadol i wneud hyn a chomisiynodd wiriadau cyfwerthedd allanol i ymdrin â phwyntiau a oedd yn ymwneud â chyfwerthedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cod. Nid oedd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddiben nac effaith arfaethedig y Cod.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

25. Caiff is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y mae rhaid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei chyfer ei diffinio yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ac y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod gerbron y Senedd.

26. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 20 o Atodlen 7 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ac nid yw wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol. Yn hynny o beth, nid yw'r Cod yn bodloni meini prawf adran 76 ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.